CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 3ydd o Dachwedd 2015 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Lon Davies
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Llinos Davies, Julie Charlton, Enid Cole, Robin Phillips, Alwyn Evans, Ceirwyn John.
Cynghorydd Sir:
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Cyng. Keith Lewis

Cofnodion 03.11.15.
Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ieuan Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
62. Cyfarfod Mis Rhagfyr – Newid dyddiad i Nos Iau 3ydd o Rhagfyr.

Gohebiaeth
63. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro- Cais Cynllunio Mr T Jackson, Pantygraig Factory, Brynberian. Llythyr i gadarnhau bod y cais wedi dderbyn.
64. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais cynllunio Mr a Mrs Liam Morris, Pentre, Ffynnongroes. Cyn trafod gwnaeth Alwyn Evans datgan ei diddordeb yn y mater. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais yma ac eisiau i'r clerc ysgrifennu llythyr i cefnogi'r cais.
65. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr. N. Davies, Flat, Llain, Eglwyswrw. Llythyr i ddweud bod y cais wedi wrthod.
66. Cyngor Sir Benfro – Siarter ddraft. Fe drafodwyd a chwbwlhawyd y siarter ac fe fydd y clerc yn ei ddanfon yn ol i'r Cyngor Sir.
67. Cyngor Sir Benfro Cais Cynllunio Mr. M. Watkins, Penpedwast, Eglwyswrw. Llythyr i gadarnhau fod y cais wedi ei dderbyn yn rhannol.
68. GIG Cymru – Dosbarthwyd y wybodaeth yma I pawb ac fe fydd copi yn yr hysbysfwrdd.
69. Cyfarfod Cyngor Cymuned. Fe fydd y cyfarfod nesaf nos Iau Rhagfyr 3ydd am 8yh.
70. Cyfanswm yn y banc 25.10.15 £3,368.78

Unrhyw Fater arall
71. Cwrdd Cofio Eglwyswrw dydd Sul 8fed o Dachwedd. Fe fydd y Cyng. Lon Davies yn rhoi torch ar rhan y Cyngor Cymuned.
72. GIG Cymru Gweddnewid Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Fe dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
73. Llywodraeth Cymru – Gwybodaeth diweddara ar gyfer Chynghorau Tref a Chymunedau Hydref 2015. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
74. Cyngor Sir Benfro – Arwyddion ar gyfer Cyfeiriad Bragdy Bluestone. Fe fydd arwydd newydd yn cael ei leoli yn Tafarn Bwlch.
75. Rhwydwaith Fforymau Cymunedol Sir Benfro Cyfarfod ar y 10fed o Dachwedd. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

76. Cinio Pensiynwyr Eglwyswrw – Cyngor Cymuned Eglwyswrw sydd yn noddi y cinio eleni. Ar ol trafod fe cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John I dalu y swm o £350.00 eleni. Hefyd fe cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ieuan Davies yn lle talu y swm mawr yma pan fyddwn yn noddi I cyfrannu £100.00 pob blwyddyn ar gyfer y ginio.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 3ydd o Rhagfyr am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 9.15y.h.